20/01/21

**Annwyl Riant / Warcheidwad / Ddisgybl,**

Rydym bellach hanner ffordd trwy ein trydedd wythnos o gau yn orfodol ac rydym yn mawr obeithio ein bod yn agosáu at amser pan all yr ysgol ailagor i'n holl ddisgyblion.

Fel yr addawyd, byddwn yn cadw cyswllt rheolaidd. Yr wythnos hon, gwelwyd dechrau'r sesiynau 'dal fyny' trwy Google Classrooms. Bu ychydig o broblemau i gychwyn ond, gyda'n gilydd, byddwn yn datrys y rhain er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dymuno ymuno yn gallu gwneud hynny.

Mae rhai rhieni wedi cysylltu i ddweud bod angen llyfrau ar gyfer eu plant i gwblhau eu gwaith. Rydym yn hapus i ddarparu'r rhain felly cofiwch gysylltu trwy wefan yr ysgol a byddwn yn trefnu amser ichi eu casglu o'r Dderbynfa.

Hoffem atgoffa pawb bod y gwaith wedi'i osod yn y fath fodd i gynnig hyblygrwydd i'n teuluoedd. Gellir cyrchu a chwblhau pob tasg os oes gennych 'Smart phone'. Rydym wedi datblygu dull dysgu cyfunol nad yw'n dibynnu ar gael mynediad at liniadur neu dabled i gyflawni'r mwyafrif o dasgau. Rydym yn deall yn iawn y bydd angen i lawer o rieni sy'n gweithio gartref ddefnyddio eu dyfeisiau ar gyfer eu gwaith. Rydym hefyd yn deall y bydd y profiad o ddysgu gartref yn heriol iawn i lawer o deuluoedd ac rydym yn eich annog i ofyn am gefnogaeth gennym ni. Peidiwch â phoeni os nad yw'n bosibl i'ch plentyn / plant gwblhau pob tasg a gynhwysir ar eu gwefan waith berthnasol.

Rydym o'r farn y gallai fod yn fuddiol inni gynnal cyfarfod trwy 'Teams' ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid. Miss Passmore a minnau bydd yn ei gynnal. Bydd yn gyfle i rieni ofyn unrhyw gwestiynau, i ofyn am gymorth neu hyd yn oed i gael 'dal i fyny' eu hunain. Os credwch y gallai hyn fod o fudd i chi, anfonwch neges trwy wefan yr ysgol ac anfonaf wahoddiad i'r cyfarfod trwy e-bost. Ein bwriad yw cynnal y cyfarfod am 4pm ddydd Mercher, 27ain Ionawr 2021.

Cofion cynnes iawn i chi gyd.

**Yn gywir**

**Miss Evans a holl staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân**

20/01/21

*Dear Parent / Guardian / Pupil,*

We are now mid-way through our third week of enforced closure and hopefully nearing a time when school can reopen for all our pupils.

As promised, we will maintain regular contact. This week has seen the start of the class 'check in' sessions via Google Classrooms. There have been a few teething problems but together, we will resolve these to ensure that all who wish to join can do so.

Some parents have made contact to say that they require books for their children to complete their work. We are happy to provide these, please just make contact via the school website and we will arrange a time for you to collect them from the main Reception area.

We'd like to remind everyone that the work is set in such a way to offer flexibility for our families. All tasks can be accessed and completed if you have a smartphone. We have purposely developed a blended learning approach which is not reliant on having access to a laptop or tablet to complete most tasks. We fully understand that many parents working from home will need to use their devices for their work. We also understand that many families will find the experience of learning from home very challenging and urge you to seek support from us if this is the case. Please don't worry if it is not possible for your child/children to complete every task included on their respective work website.

We thought it might be beneficial for us to hold a meeting via Teams for parents/guardians. This will be hosted by myself and Miss Passmore. It will be an opportunity for parents to ask any questions, seek support or just to have a 'catch-up' themselves. If you think that this might be of benefit to you, please send a message via the school website and I will send an invite to the meeting via email. It is our intention to hold the meeting at 4pm on Wednesday, 27th January 2021.

As always, our very best wishes to you all.

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân.*